''O mai god Lowri, dwi mor depresd heddiw''
''Ha ha sêm Sara, dwi lityrali am gal nyrf i bî mewn munud''

clywch,
ein datganiadau ffasiynol,
wedi'u normaleiddio,
eu poblogeiddio

clywch,
ond ni chlywn,
ni welwn,
and so,
collwn,

ar ei phen ei hun
ei meddwl mor orlawn
nes ei bod hi'n wag,
nes iddi hi ei hun,
deimlo'n wag

y synnwyr llethol o wacter,
mor swnllyd
nes iddi deimlo tawelwch,
nes iddi hi ei hun,
gael ei thawelu

iselder achlysurol
syniadau gwyrgam,
yr ofn,
yr ofn,
yr ofn,
ofn o ymddangos yn hunanol,

'lly tawel y bydd hi,
rhyddid emosiynol darfodedig,
rhyw ''Being and Nothingness''

clywch,
siyfflo'r gynulleidfa,
sgyrsia'n marw allan,
ma'r goleuada'n mynd i lawr,
ma'r llenni ar fin agor